Bwrdd Cyfarwyddwyr y Coleg Cymraeg Cenedlaethol

Dydd Mercher, 23 Medi 2015

11.30 – 12.10

Gwesty'r Metropole, Llandrindod

Yn bresennol:

Cyfarwyddwyr:	Andrew Green (Cadeirydd) Beth Button, Cyfarwyddwr yn cynrychioli myfyrwyr Yr Athro Iwan Davies, Cyfarwyddwr Sector Addysg Uwch Jacqui Hare, Cyfarwyddwr Sector Addysg Uwch Geraint James, Cyfarwyddwr Annibynnol Gwilym Dyfri Jones, Cyfarwyddwr Sector Addysg Uwch Dr Gwyn Lewis, Cyfarwyddwr Annibynnol Dr Rhodri Llwyd Morgan, Cyfarwyddwr Sector Addysg Uwch
Sylwedyddion:	Kimberley Meringolo, Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC/HEFCW)
Swyddogion:	Dr Ioan Matthews, Prif Weithredwr Dr Dylan Phillips, Uwch Reolwr Academaidd Dr Gwennan Schiavone, Uwch Reolwr Academaidd Dr Dafydd Trystan, Cofrestrydd Nia Brown, Swyddog Datblygu: Ysgrifenyddiaeth
Ymddiheuriadau:	Siôn Davies, Swyddog Iaith Gymraeg, UCMC Yr Athro Jerry Hunter Dr Hefin Jones Olivia Jones, Prifysgolion Cymru Catherine Rees, Ysgrifennydd, Coleg Cymraeg Cenedlaethol Yr Athro Hywel Thomas Ieuan Wyn Linda Wyn

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau gweithredu	Cyfnod amser
1. Croeso a chyflwyniad	1.1 Estynnwyd croeso i'r aelodau i gyfarfod ychwanegol o'r Bwrdd. 1.2 Derbyniwyd ymddiheuriadau i'w cynnwys yn y cofnodion.		
2. Datganiadau o ddiddordeb	2.1 Atgoffwyd yr aelodau o'r drefn lle gofynnir i aelodau nodi ar y daflen arwyddo presenoldeb unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb ychwanegol at y rheiny a nodwyd eisoes yn y Gofrestr Buddiannau.		
3. Gohebiaeth	3.1.1 Nodwyd llythyr David Blaney, Prif Weithredwr y Cyngor Cyllido (CCAUC), at y Coleg. 3.1.2 Yn dilyn trafodaeth ar gynnwys y llythyr trafodwyd y goblygiadau i'r Coleg, o ran cynnal ei weithgareddau, pe byddai'r gyllideb yn y dyfodol yn sylweddol is nag y mae ar hyn o bryd. 3.1.3 Cymeradwywyd ymateb i'r Cyngor Cyllido, ar ffurf y modelau a ofynnwyd amdanynt gan gynnwys sylwebaeth ar effaith y math o doriadau a fyddai ymhlyg wrth gyllidebau o'r math a amlinellwyd yn y llythyr.		
4. Cyllideb ddiwygiedig 2015/16 **(BC/15/04/04)**	4.1.1 Cafwyd cyflwyniad gan y Cofrestrydd ar Gyllideb ddiwygiedig y Coleg ar gyfer 2015/16, yn sgil y wybodaeth a dderbyniwyd gan y Cyngor Cyllido ynghylch cyllideb 2015/16 a 2016/17. 4.1.2 Nodwyd y gyllideb ddiwygiedig ar gyfer 2015/16 sy'n cynnwys arbedion sy'n lleihau cyllideb y Coleg i £7.7 miliwn yn 2015/16. 4.1.3 Yn dilyn trafodaeth cymeradwywyd y gyllideb ddiwygiedig ar gyfer 2015/16, gan nodi y byddai'r swyddogion, o bosibl, yn		

	adnabod arbedion pellach yn ystod y flwyddyn. Adroddwyd y byddai cyllideb ddrafft ar gyfer 2016/17 yn cael ei chyflwyno i gyfarfod y Bwrdd ar 25 Tachwedd 2015. 4.2.1 Nodwyd yr arbedion yn y papur a chymeradwywyd, yn benodol, yr argymhelliad i rewi swyddi sy'n dod yn wag oddi fewn i'r cynllun staffio (onibai bod rhesymau neilltuol dros beidio), yn ogystal â rhewi prosiectau strategol sydd heb eu cymeradwyo. 4.2.2 Yn ogystal cytunwyd na fyddai'r Coleg yn gwahodd unrhyw geisiadau newydd am gyllid prosiect heblaw am un cylch o ddyfarniadau Grantiau Bach. 4.2.3 Nodwyd yr arbedion sydd wedi eu hadnabod oddi fewn i weithgareddau cenedlaethol a chanolog a chymeradwywyd yr egwyddor na fydd swyddi mewnol a ddaw yn wag yn cael eu llenwi heb gymeradwyaeth y Pwyllgor Staffio tan i sefyllfa gyllidebol y Coleg ddod yn gliriach. 4.3.1 Nodwyd a chymeradwywyd y trefniadau ar gyfer ymgynghori â'r sefydliadau ynghylch y Cynllun Staffio Academaidd ar swyddi lle bydd nawdd y Coleg yn dod i ben yn 2016 neu 2017.		
5. Papur trafod gan y Cyngor Cyllido	5.1.1 Derbyniwyd a nodwyd papur trafod y Cyngor Cyllido. 5.1.2 Yn dilyn trafodaeth cytunwyd i aros tan gyfarfod Prifysgolion Cymru er mwyn sefydlu beth fydd ymateb y prifysgolion i'r cynigion dan sylw.		
6. UFA	6.1 Cadarnhawyd y cynhelir cyfarfod blynyddol y Coleg, a'r Cynulliad Blynyddol, yn y Deml Heddwch yng Nghaerdydd ar 2 Mawrth 2016. 6.2 Adroddwyd y byddai adroddiad blynyddol gwahanol yn cael ei gyhoeddi eleni a fyddai'n newid pwyslais yn sgil yr hinsawdd		

	bresennol. 6.3 Argymhellwyd cynnal seminar posibl i'r Cyfarwyddwyr noson cyn y cyfarfod arferol ar 25 Tachwedd.	Swyddog Datblygu i gylchredeg y dyddiad	Ar unwaith
7. Dyddiadau a lleoliadau'r cyfarfodydd nesaf	7.1 Cynhelir cyfarfodydd nesaf y Bwrdd Cyfarwyddwyr ar gyfer y flwyddyn academaidd 2015/16 fel a ganlyn: • 25 Tachwedd 2015, Prifysgol Cymru: y Drindod Dewi Sant • 3 Mawrth 2016, Prifysgol Caerdydd • 22 Mehefin 2016, Prifysgol Aberystwyth 7.2 Diolchwyd i Lynwen Davies, cyfieithydd ar y pryd, am ei gwaith ac i staff Westy'r Metropole am eu cymorth am drefnu a lletya'r cyfarfod.		